Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Gweithgareddau | Lleoliad: | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog |
| Adran: | Gweithgareddau | Cyflog: | Graddfa 2:<br>£22,459 - £24,763 |
| Oriau Gwaith: | Hyd at 35 awr yr wythnos – agored i drafod unrhyw batrwm gwaith hyblyg. | Cytundeb: | Parhaol |
| Yn adrodd i: | Rheolwyr Gweithgareddau | Rheolaeth Llinell: | Neb |

## Prif bwrpas y swydd:

Darparu gwasanaeth cyflawn a phroffesiynol fel y gall cwsmeriaid fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau diogel, cyffrous sy'n cynnig cyfleoedd a phrofiad dwyieithog, cymdeithasol ac addysgiadol i blant a phobl ifanc.

Byddwch yn chwarae rhan arwyddocaol yn weithrediad a datblygiad y gweithgareddau a rhediad esmwyth y sesiynau, amserlen a gweithgareddau

---

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Cyflwyno, arwain a hyfforddi gweithgareddau gwersyll trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog.
2. Sicrhau bod y preswylwyr yn mwynhau eu hunain mewn amgylchedd diogel a bod pwyntiau addysgiadol y gweithgareddau yn cael eu cyflawni.
3. Gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n hyrwyddo polisi gofal cwsmer y Gwersyll.
4. Dilyn cod ac ymarfer gwaith llym y Gwersyll ar gyfer y gweithgareddau.
5. Sicrhau bod y gweithgareddau a'r offer yn cyrraedd y safonau angenrheidiol, disgwyliedig, a'u bod yn barod ac ar gael pan fo angen.
6. Sicrhau bod y cyfarwyddyd a roir yn cyrraedd safon uchel disgwyliedig y Gwersyll.
7. Cydymffurfio â rheolau Iechyd a Diogelwch a bod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n deillio o'r gweithgareddau.
8. Sicrhau bod yr holl waith papur perthnasol h.y. cofnodion damweiniau, archwiliadau (dyddiol wythnosol a misol), cofnodion cynnal a chadw'r gweithgareddau'n cael eu llenwi a'u cadw'n gyfredol.
9. Cadw mannau lle y gwneir gweithgareddau mewn trefn ac yn ddiogel.

10. Cynghori’r rheolwr llinell ynghylch unrhyw awgrymiadau ar y ffordd y gellir gwella’r gweithgareddau a chynorthwyo yn eu datblygiad.

11. Cynorthwyo fel bo angen yn rhediad y Gwersyll yn gyffredinol.

12. Cyflwyno, arwain a sicrhau rhediad esmwyth i’r rhaglen gweithgareddau nos i’r gwersyllwyr ar gyhoedd sy’n ymweld pan ar ddyletswydd hwyr.

13. Yn gyfrifol am y grwpiau sydd yn y gwersyll pan ar ddyletswydd hwyr (mewn cydweithrediad ar reolwr sydd ar alwad i’r gwersyll).

**Cyffredinol**

1. Ymgymryd â dyletswyddau priodol eraill sy’n cyfrannu at rediad esmwyth y Gwersyll a’r gweithgareddau.

---

## Manyleb y person a’r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae’n rhaid llenwi’r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae’n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â’r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Y gallu i gyfathrebu, dysgu a hyfforddi yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). | 1. Cymhwyster Achub Bywyd (Pool Attendant /Lifeguard) |
| 2. Profiad o weithio a chymhwyster hyfforddi. | 2. Cymhwyster Cymorth Cyntaf |
| 3. Profiad a’r gallu i arwain, hyfforddi, cyfathrebu ac ysgogi plant, phobl ifanc ac oedolion. | 3. Cymhwyster EASI Goruchwylydd Lefel 1 Beiciau Modur * |
| 4. Profiad a’r gallu i weithio gyda plant a phobl ifanc sydd ag anghenion arbennig. | 4. Cymhwyster Hyfforddi Dringo |
| 5. Unigolion egnïol, brwdfrydig a threfnus. | 5. ERCA * |
| 6. Profiad a diddordeb mewn gweithgareddau chwaraeon, hamdden a’r awyr agored. | 6. Single Pitch Award |
| 7. Parodrwydd i weithio yn unigol ac fel rhan o dîm. | 7. Indoor Climbing Award |
| 8. Hyblygrwydd a pharodrwydd i weithio oriau | 8. Cymhwyster Hyfforddi Saethyddiaeth * |
| | 9. Cymhwyster Hyfforddwr Chwaraeon yn y Gymuned. |
| | 10. Cymhwyster hyfforddi chwaraeon eraill ac awyr |

| | |
|---|---|
| anghymdeithasol.<br><br>9. Sgiliau cyflwyno ardderchog.<br><br>10. Trwydded gyrru car.<br><br>11. Y gallu i arwain a chyflwyno gweithgareddau (sy'n cynnwys twmpath) grwpiau o 5 i 100.<br><br>12. Y gallu i ddatblygu Gweithgareddau.<br><br>13. Y gallu i ddelio gydag ymddygiad heriol pan fo angen.<br><br>14. Ymwybyddiaeth ac agwedd cyfrifol tuag at Iechyd a Diogelwch. | agored.<br><br>11. Gradd neu gymhwyster uwch perthnasol.<br><br>12. Trwydded gyrru Bws Mini (D1 neu debyg).<br><br>13. Profiad o weithio mewn canolfan chwaraeon a hamdden neu/ac awyr agored. |

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2024 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

## CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU AC BUDDIANNAU

**(**ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Gweithgareddau |
| Cyfnod prawf: | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| Gwiriad GDG: | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). |
| Archwiliad meddygol: | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| Cyflog: | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i'r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa. |
| Gwyliau blynyddol: | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi: | Arwahan i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Pen-blwydd: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-Blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Lles: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personnol i'w Lles.<br>Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |

| | |
|---|---|
| Profion Llygaid: | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| Yswiriant Bywyd: | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| Disgownt i staff: | Mae modd cael gostyngiad o :<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr urdd |
| Cynllun Beicio: | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000. |
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| Cinio am ddim: | Ar hyn o bryd, cynigwn ginio cynnes am ddim i holl staff sy'n gweithio yn y gwersylloedd neu yn ymweld a'r gwersylloedd. |